Y CYFANSODDIAD ADRAN 23
COD LLYWODRAETHU

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn cyfeirio at y prosesau sy'n gyfrifol am gyfeirio, *rheoli, arwain a dwyn i gyfrif sefydliadau fel y Cyngor. Mae hefyd yn ymwneud â* diwylliant a gwerthoedd - y modd y mae cynghorwyr (aelodau) a gweithwyr yn meddwl ac yn gweithredu. I grynhoi, os yw rheoli yn ymwneud â rhedeg y Cyngor, mae llywodraethu corfforaethol yn ymwneud â gweld ei fod yn cael ei redeg yn iawn.

Mae'r Cyngor yn sefydliad cymhleth sy'n effeithio pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Wrecsam ynghyd â'r busnesau a'r sefydliadau a leolir yma. Mae felly'n hanfodol bod gennym hyder yn ein llywodraethu corfforaethol, felly mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau:

- fel corff democrataidd, ein bod yn ymgysylltu â'n dinasyddion a'n rhanddeiliaid yn effeithiol a'n bod yn atebol iddynt;
- ein bod yn cynnal ein busnes yn unol â'r gyfraith a safonau priodol;
- ein bod yn mynd ati'n briodol i roi cyfrif am arian cyhoeddus a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- bod rheolaethau'n gymesur â'r risg fel nad ydynt yn amharu ar berfformiad;
- ein bod yn mynd ati'n barhaus i wella'r modd yr ydym yn gweithredu, yn nhermau effeithiolrwydd, ansawdd, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd ac arloesedd; ac
- ein bod yn cyflawni ein pwrpas ac yn cwrdd â'n blaenoriaethau fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor.

Felly mae'r Cyngor yn ymroddedig i lywodraethu corfforaethol da – i wneud y pethau cywir yn y ffordd gywir i'r bobl gywir mewn modd sy'n amserol, yn gynhwysol, yn agored, yn onest ac yn atebol. Mae'r Cod hwn yn cyflwyno agwedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam at gyflawni a chynnal llywodraethu corfforaethol da. Mae'n dilyn canllawiau a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE).

Fedrwch weld y Cod Llywodraethu trwy glicio ar y linc isod

https://www.wrecsam.gov.uk/service/llywodraethu-hunanasesu